Dyma'r pecyn gwybodaeth ar gyfer swydd:
**Rheolwr Prosiect, Troed yn y Drws**

Mae'r wybodaeth ganlynol yn cael ei darparu i'ch cynorthwyo gyda'ch cais. Cewch fwy o wybodaeth am Ffilm Cymru fan yma: www.ffilmcymruwales.com

## Cynnwys

**Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad ..................2**
**Y Swydd ................................................................3**
**Ffilm Cymru Wales ................................................7**
**Diagram Staffio'r Prosiect .....................................10**

# Amrywiaeth, Cynhwysiant a Chymorth Mynediad

Credwn mewn sector sy'n gweithio i bawb ac mae gennym angerdd am ehangu mynediad i'r sector sgrin.

**Mynediad, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

Byddwn yn cynnig cyfweliad awtomatig i bob ymgeisydd sy'n bodloni Meini Prawf Sylfaenol y rôl ac sy'n ystyried eu hunain yn Bobl o'r Mwyafrif Byd-eang, yn Ddu, Asiaidd neu o Leiafrif Ethnig, neu'n F/fyddar, yn drwm eu clyw, yn Anabl neu'n niwroamrywiol.

I ymgeiswyr sydd â gofynion mynediad, er enghraifft unigolion sy'n F/fyddar, trwm eu clyw, Anabl, niwroamrywiol, a phobl sydd wedi colli'u golwg, mae cymorth ar gael i gyflwyno cais.

Cysylltwch â ni i roi gwybod sut y gallwn helpu. Er enghraifft, gallwn dalu am gostau dehonglydd BSL ar gyfer cyfarfod gyda ni cyn gwneud cais, neu gymorth ysgrifennu i ymgeiswyr dyslecsig. Neu gallwn gytuno ar fformatau eraill ichi gyflwyno cais. Cawn ein harwain gennych chi.

Cysylltwch â Siobhan@ffilmcymruwales.com i drafod eich gofynion ymlaen llaw cyn cyflwyno cais.

**Rhannu Swydd a Gweithio Hyblyg**

Rydym yn agored iawn i gynigion i rannu swydd a gweithio'n hyblyg. Rhowch fanylion eich cynnig i rannu swydd neu i weithio'n hyblyg yn eich llythyr eglurhaol, os yw'n berthnasol.

We stand in solidarity to say NO to racism and commit to a #ZeroRacismWales

DO YOU?

Sign our policy today.
www.zeroracismwales.co.uk

# Y Swydd

**Rheolwr Prosiect Troed yn y Drws**

**Adran:** Datblygu, Cynhyrchu a Sgiliau

**Swydd:** Rheolwr Prosiect, Amser Llawn, Cyfnod Penodol (posibilrwydd o rannu swydd)

**Yn adrodd i:** Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant / Pennaeth Cynhyrchu

**Lleoliad:** Cymru. Sylfaen y Prosiect: Sir Casnewydd, gyda mynediad i swyddfa Ffilm Cymru yng Nghaerdydd. Cyfuniad o weithio o bell ac wyneb yn wyneb yw'r disgwyl.

**Dyddiadau'r cyfweliadau:** 14eg, 15fed a'r 16eg Rhagfyr (cadarnhewch ar eich ffurflen gais os na allwch ddod i unrhyw un o'r dyddiadau hyn) a byddant yn cael eu cynnal ar-lein

**Cyfnod:** Ionawr 2022 – 30ain Mehefin 2022

**Cyflog:** £40,000 y flwyddyn pro rata a chyfnod penodol hyd 30ain Mehefin 2022, ynghyd â phensiwn a 28 diwrnod o wyliau yn ogystal a Gwyliau Cyhoeddus.

**Sut i wneud cais:** Anfonwch CV a llythyr eglurhaol i siobhan@ffilmcymruwales.com yn amlinellu pryd rydych ar gael a'ch profiad a'ch sgiliau yn erbyn yr hyn sydd wedi'i amlinellu yn y fanyleb hon oni bai ein bod wedi cytuno ar fformat gwahanol i'r cais i gynorthwyo mynediad.

**Dyddiad cau: Dydd Iau 9fed Rhagfyr am hanner dydd.**

## Rôl y Rheolwr Prosiect

Mae Ffilm Cymru yn edrych am reolwr prosiect profiadol i oruchwylio a rheoli pob elfen o'r prosiect hwn gyda'r nod o sicrhau cyflawni'r gweithgarwch prosiect yn llwyddiannus ar brosiect Ffilm Cymru sy'n seiliedig yng Nghasnewydd ac yn cael ei ariannu gan Gronfa Adnewyddu Gymunedol y DU.

Y Rheolwr Prosiect fydd y prif bwynt cyswllt yn nhîm y prosiect, Ffilm Cymru a thîm Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yng Nghasnewydd, i sicrhau y caiff y prosiect ei gyflawni ar amser ac yn unol â'r gyllideb. Darparu diweddariadau rheolaidd a sicrhau bod tîm y prosiect, Uwch Dîm Rheoli Ffilm Cymru Wales a Chronfa Adnewyddu Gymunedol y DU yn deall cynllun cyflawni'r prosiect a'r cyflawniad yn erbyn y targedau a gytunwyd. Bydd yn cydweithio'n agos â'r Rheolwr Partneriaeth i reoli tîm bach a sicrhau y gall y partneriaid gyflawni yn erbyn yr amcanion.

Mae'r Rheolwr Prosiect yn gyfrifol am oruchwylio cyflawniad targedau a chontractau a gytunwyd â phartneriaid y prosiect er mwyn casglu adborth o gychwyn y rhaglen a thrwy gydol y gwaith cyflawni er mwyn bwydo i mewn i adroddiadau i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

## Cyfrifoldebau Allweddol

- Datblygu a chyflawni cynllun prosiect a phecynnau gwaith, gan adrodd a thracio ar gyfer y prosiect dros y cyfnod o 6 mis gan gynnwys y broses rheoli risg.
- Cydweithio'n agos â'r rheolwr partneriaeth i osod targedau realistig a chyraeddadwy a dulliau adrodd cysylltiedig i sicrhau y caiff cytundebau contractiol eu bodloni.

- Goruchwylio cyllidebau, gwariant ac adrodd ar y prosiect gan weithio gyda’r rheolwr partneriaeth.
- Cyfarfod â chyllidwyr a chynnal cyswllt â hwy er mwyn cyfathrebu cynnydd y prosiect yn erbyn y targedau.
- Gweithio gyda’r rheolwr contractau i gyflawni contractau i bartneriaid sy’n cydweddu ag allbynnau Cronfa Adfywio Cymunedol y DU.
- Cynnal cyfarfodydd tîm rheolaidd a sicrhau bod gweddill tîm Ffilm Cymru yn cael eu diweddaru ar gynnydd.
- Cynnal gwerthusiad o’r prosiect a chyflawni allbynnau ymchwil, gan reoli’r berthynas â phartneriaid priodol.
- Goruchwylio’r broses gaffael i sicrhau diwydrwydd dyladwy.
- Datblygu gohebiaeth gyson â’r tîm a’r Rheolwr Partneriaeth i sicrhau bod targedau cyflawni’r cais i Gronfa Adfywio Cymunedol y DU yn cael eu cyfathrebu’n effeithiol a bod y partneriaid yn ymwybodol o’r disgwyliadau ynghylch adrodd a chyflawni.
- Cydgrynhoi adroddiadau gan nifer o randdeiliaid.
- (Ar y cyd â’r rheolwr partneriaeth) datblygu model o ddulliau adrodd ar gyfer partneriaid y diwydiant a chyfranogwyr ar draws y prosiect.
- Mewn cydweithrediad â thîm Troed yn y Drws, arwain y gwaith gyda gwerthuswr allanol i ystyried cyrhaeddiad ac effaith y rhaglen a fydd yn llywio ceisiadau am gyllid yn y dyfodol
- Cydweithio’n agos â’r tîm ymchwil i sicrhau bod y canfyddiadau allweddol yn cael eu hintegreiddio mewn adroddiadau i gyllidwyr a cheisiadau yn y dyfodol
- Cyfrannu at ddylunio a datblygu cyfathrebiadau allanol a digwyddiadau i ledaenu gwybodaeth am y prosiect a’i lwyddiant.
- Hyrwyddo a chefnogi amrywiaeth a chynhwysiant mewn ffordd gyson, yn unol â’n Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Meini Prawf Sylfaenol y Rôl

A chithau'n rheolwr prosiect profiadol, byddwch yn ymrwymo i gyflawni prosiectau drwy weithredu systemau cadarn ac ymarferol i gyflawni, adrodd a gwerthuso prosiectau a ariennir yn gyhoeddus yn y sector diwylliannol ac yn ehangach;

- Cymhwyster rheoli prosiect neu brofiad cyfwerth y gellir ei ddangos mewn rolau rheoli prosiect wedi'u hariannu.
- Profiad y gellir ei ddangos o reoli prosiectau sydd â nifer o randdeiliaid mewn amgylchedd ar ffurf matrics.
- Profiad o ddatblygu a rheoli cyllidebau mawr.
- Cyfathrebydd da a all ddeall a llywio amcanion partneriaid a chyfathrebu anghenion ac allbynnau cyflawni gyda phartneriaid prosiect mewnol ac allanol.
- Gallu y gellir ei ddangos i reoli prosiectau, llinellau amser, amserlenni a chyllidebau'n llwyddiannus a'r gallu i gyfathrebu'r rhain ar draws y tîm â'r busnes.
- Llygaid craff am fanylion a chywirdeb, a sgiliau trefnu ac adrodd cryf.
- Profiad o reoli ac arwain tîm bach.
- Profiad o weithio ag ymchwil a gwerthusiadau oddi mewn i brosiectau a chyfathrebu anghenion ac allbynnau prosiectau.
- Profiad o adeiladu a chynnal perthynas â Chronfa Adfywio Cymunedol y DU, Partneriaid a chyllidwyr.
- Y gallu i ddefnyddio rhaglenni Microsoft Office, yn enwedig excel.

## Dymunol

- Profiad a dealltwriaeth o'r sector sgrin a'r celfyddydau yn ehangach.
- Rhuglder yn y Gymraeg (yn ysgrifenedig ac ar lafar).

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl sefydliadau cymunedol a/neu'r trydydd sector yn ardal Casnewydd.
- Dealltwriaeth sylfaenol o'r dirwedd sgiliau a hyfforddiant a phronesis hyfforddiant a sgiliau ffurfiol.

**Gweithgarwch prosiect Troed yn y Drws i'r dyfodol:** Hoffem roi gwybod i ddarpar ymgeiswyr mai ein huchelgais, sy'n ddibynnol ar gais llwyddiannus am gyllid a gaiff ei gyflwyno yn 2022, yw parhau i ehangu'r prosiect hwn am dair blynedd arall hyd 2025, ond nid ydym mewn sefyllfa i gadarnhau ar hyn o bryd.

Nodwch yn eich cais os hoffech chi hefyd gael eich ystyried ar gyfer swyddi sgiliau a hyfforddiant eraill a allai godi yn Ffilm Cymru o bryd i'w gilydd ac a ydych yn rhoi cydsyniad i ni barhau i gadw eich manylion, am ddwy flynedd, at y diben hwnnw.

I gael gwybodaeth am sut mae Ffilm Cymru yn prosesu data ymgeiswyr, gweler ein Polisi Preifatrwydd.

## Ffilm Cymru Wales

Ffilm Cymru yw'r asiantaeth ddatblygu ar gyfer ffilmiau yng Nghymru ac rydym wedi ymrwymo i hybu sector ffyniannus y gallwn oll fod yn falch o ddweud ei bod yn perthyn i ni. Dyma sut y gwnawn hyn:

- Gweithio gyda phartneriaid i hybu safle byd ffilm yng Nghymru a thu hwnt
- Creu amgylchedd lle gall ffyrdd o weithio sy'n fwy cynhwysol, arloesol a gwyrdd gael eu profi, eu hintegreiddio a'u rhannu
- Hwyluso i bobl o bob oedran a gallu ddysgu'n greadigol
- Datblygu gweithlu sgrin i'r dyfodol drwy amryw raglenni hyfforddiant
- Buddsoddi mewn ffilmiau anarferol a rhai sy'n cymryd risgiau a'u gwneuthurwyr o gam cynnar

- Cynnig profiadau sinematig cyffrous i gynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru
-

Rydym yn rheoli arian y loteri genedlaethol ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru a'r Sefydliad Ffilm Prydeinig, yn ogystal â chodi a rheoli arian pellach o Gronfa Adfywio Cymunedol y Deyrnas Unedig. Mae ein gwaith yn mapio'n agos i Raglen Lywodraethu Cymru, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol, oherwydd y cymysgedd creadigol, economaidd a diwylliannol sydd i'n sector.

Sefydlwyd Ffilm Cymru yn 2006 ac mae'n Gwmni Buddiannau Cymunedol. Yn 2018 fe lansiom ein Cynllun Strategol 2018 - 2024, sydd i'w weld fan yma.

**Foot In The Door**

Mae ein rhaglen Troed yn y Drws, a sefydlwyd yn 2016, yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys Cymdeithasau Tai, awdurdodau lleol a chanolfannau gwaith, i gysylltu pobl na fyddai efallai'n meddwl bod gyrfa ym myd ffilm yn briodol iddyn nhw â rhwydweithiau, gwybodaeth a chyfleoedd gwaith yn y diwydiannau sgrin.

Rydym yn gweithio gyda chymunedau a darparwyr addysg a hyfforddiant i ganfod a chreu cyfleoedd lleol i ddysgu a throsglwyddo sgiliau gwerthfawr fel gwaith saer, gwisgoedd, trin gwallt a choluro ar setiau cynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru.

Mae ein rhaglen yn canolbwyntio ar wella cynhwysiant economaidd fel ffordd i hybu cyfranogiad ehangach yn y sector. Mae Troed yn y Drws yn cynnig cymorth bugeiliol cyflawn, gan gynnwys mynediad i fwrsariaethau i dalu am gludiant a gofal plant, a bwrsariaethau datblygu i dalu am offer a chyrsiau i

ehangu gwybodaeth a chyfleoedd i'r hyfforddeion. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid cynhyrchu yn y diwydiant i ddeall eu hanghenion a chynorthwyo sefydliadau i ddatblygu arferion cynhwysol ymhellach.

I gael mwy o wybodaeth am Ffilm Cymru Wales a Throed yn y Drws, gweler ein gwefan a'n Hadroddiadau Blynyddol.

Caiff y prosiect hwn ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Adfywio Cymunedol y DU.

Mae Cronfa Adfywio Cymunedol y DU yn un o raglenni Llywodraeth y DU ar gyfer 2021/22. Ei nod yw cynorthwyo pobl a chymunedau mwyaf eu hangen yn y DU i beilota rhaglenni a dulliau newydd i baratoi ar gyfer Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU. Mae'n buddsoddi mewn sgiliau, yn gymuned ac mewn lleoedd, ac mewn busnesau lleol, ac yn cynorthwyo pobl i mewn i waith. I gael mwy o wybodaeth, ewch i'w gwefan fan yma.

UK Government
Llywodraeth y DU

# Diagram Staffio'r Prosiect

